
# Ffordd Llanrwst,
# Gyffin
# Conwy
# LL32 8HZ

# Datganiad Cymysgedd Tai Fforddiadwy

## Golwg 3D o'r datblygiad arfaethedig




(angen newid hwn)

Datblygiad: Tir ar Ffordd Llanrwst, Gyffin


Cyfeiriad: Ffordd Llanrwst, Gyffin, Conwy, LL32 8HZ

Datblygwr: Adra (Tai) Cyf

Teitl y Ddogfen: DEV-0115 Datganiad Cymysgedd Tai Fforddiadwy

Wedi ei baratoi Goronwy Owen Dyddiad: 24/11/2025

Wedi'i wirio Owen Bracegirdle Dyddiad: 24/11/2025




Cynllun Lleoliad

## 1.0 ADRA (TAI) CYF

Fel y gymdeithas dai fwyaf yng ngogledd Cymru, mae Adra yn darparu gwasanaethau a cartrefi o ansawdd da i breswylwyr gan geisio diogelu a cryfhau diwylliant a threftadaeth y cymunedau yr rydym yn eu gwasanaethu.

Fel landlord cymdeithasol cofrestredig, prif bwrpas Adra yw darparu tai fforddiadwy i'r rhai mewn angen. Rydym yn sefydliad annibynnol dielw sydd wedi'i gofrestru a'i reoli gan Llywodraeth Cymru. Fel sefydliad dielw, caiff unrhyw incwm dros ben ei ddychwelyd i'r busnes i'n galluogi i barhau i ddarparu cartrefi a gwasanaethau a chyflawni ein hamcanion.

Ar hyn o bryd, mae gan Adra dros 7,300 o gartrefi rhent fforddiadwy ac rydym yn rheoli ac yn cynnal a chadw yr eiddo yma. Yn ystod y deng mlynedd diwethaf, rydym wedi buddsoddi £137 miliwn yn ein cartrefi i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).

Fodd bynnag, mae galw mawr am fwy o unedau fforddiadwy yng Nghonwy. I ddiwallu'r angen, mae Adra yn adeiladu cartrefi newydd ac wedi rhoi rhaglen 'ddatblygu' uchelgeisiol ar waith, i fuddsoddi tua £200m yng Ngogledd Cymru ar ein rhaglen adeiladu o'r newydd.

Mae Adra yn cydnabod bod tai fforddiadwy yn elfen hanfodol wrth adfywio cymunedau a chryfhau cynhwysiant cymdeithasol.

## 2.0 Y DATBLYGIAD ARFAETHEDIG

Tabl 1: Pob uned

| Math o Unedau | Nifer o bobl / Ystafelloedd Gwely | Nifer o Unedau a Gynigir |
|---|---|---|
| Fflat – Math A a B | 2per / 1 ystafell wely | 30 |
| Tŷ – Math C | 4per / 2 ystafell wely | 10 |
| Tŷ – Math D | 4per / 2 ystafell wely | 12 |
| Fflat – Math E | 3per / 2 ystafell wely | 12 |
| Byngalos – Math F | 3per / 2 ystafell wely | 2 |
| Tŷ – Math G | 5per / 3 ystafell wely | 1 |
| Tŷ – Math H | 5per / 3 ystafell wely | 2 |
| Tŷ – Math J | 5per / 3 ystafell wely | 21 |
| Tŷ – Math K | 6per / 4 ystafell wely | 4 |
| Tŷ – Math L | 8per / 5 ystafell wely | 1 |
| **CYFANSWM** | Hyd at 342per/195 ystafell wely | **95** |

*Mae'r tabl uchod yn rhoi gwybodaeth ar y nifer a'r gymysgedd o unedau ar safle Adra*




Nod y cynllun arfaethedig yw darparu cartrefi o ansawdd da yng Nghonwy. Bydd y cynllun yn cynnig deiliadaethau fforddiadwy cymysg o rent cymdeithasol a rhent canolradd a fydd yn cefnogi twf parhaus y boblogaeth yn yr ardal.

Mae'r cynnig presennol ar gyfer y gymysgedd ganlynol o unedau:

- 28 x Fflat 1  ystafell wely 2 berson - Rhent Cymdeithasol
- 12 x Fflat 2  ystafell wely 3 berson - Rhent Cymdeithasol
- 10 x Tŷ 2 ystafell wely i 4 unigolyn - Rhent Cymdeithasol
- 2 x Byngalo 2 ystafell wely 3 Person - Rhent Cymdeithasol
- 10 x Tŷ 3 ystafell wely i 5 unigolyn - Rhent Cymdeithasol
- 3 x Tŷ 4 ystafell wely i 6 unigolyn - Rhent Cymdeithasol
- 1 x Tŷ 5 ystafell wely i 8 unigolyn - Rhent Cymdeithasol
- 2 x Fflat 1  ystafell wely 2 berson - Rhent Canolradd
- 12 x tŷ 2 ystafell wely i 4 person - Rhent Canolradd
- 14 x tŷ 3 ystafell wely i 5 person - Rhent Canolradd
- 1 x tŷ 4 ystafell wely i 6 person - Rhent Canolradd

Yn ôl Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007-2022 a roddwyd ar waith ym mis Hydref 2013, rhaid i unrhyw ddatblygiad o 2 eiddo neu fwy yn Gyffin, Conwy gynnwys o leiaf 30% o unedau fforddiadwy (POLISI HOU/2: Tai Fforddiadwy ar gyfer Anghenion Lleol). Mae'r cynnig cyfredol ar gyfer y datblygiad hwn ymhell y tu hwnt i'r gofyniad hwn, gyda'r cynnig yn cynnwys o bosib darparu 100% o unedau fforddiadwy ar y safle.

Tabl 2: Cymysgedd arfaethedig o dai

| Rhif Plot | Math o Unedau [Cyfeirnod Math] | Nifer o Ystafelloedd Gwely | Maint m² | Gofynion Ansawdd Datblygu |
|---|---|---|---|---|
| Plot 1 | Tŷ Pâr – Mynediad Ochr [G] | 3 ystafell wely 5 person | 93 | Ia |
| Plot 2 | Tŷ Pâr [C] | 2 ystafell wely 4 Person | 83 | Ia |
| Plot 3 | Tŷ Pâr [D] | 2 ystafell wely 4 Person | 83 | Ia |
| Plot 4 | Tŷ Pâr [D] | 2 ystafell wely 4 Person | 83 | Ia |
| Plot 5 | Tŷ Pen Teras [H] | 3 ystafell wely 5 person | 93 | Ia |
| Plot 6 | Tŷ Canol Teras [C] | 2 ystafell wely 4 person | 83 | Ia |
| Plot 7 | Tŷ Pen Teras [C] | 2 ystafell wely 4 person | 83 | Ia |
| Plot 8 | Tŷ Pen Teras [C] | 2 ystafell wely 4 person | 83 | Ia |
| Plot 9 | Tŷ Canol Teras [C] | 2 ystafell wely 4 person | 83 | Ia |
| Plot 10 | Tŷ Pen Teras [H] | 3 ystafell wely 5 person | 93 | Ia |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Plot 11 | Tŷ Pen Teras [C] | 2 ystafell wely 4 person | 83 | Ia |
| Plot 12 | Tŷ Canol Teras [C] | 2 ystafell wely 4 person | 83 | Ia |
| Plot 13 | Tŷ Canol Teras [C] | 2 ystafell wely 4 person | 83 | Ia |
| Plot 14 | Fflat llawr isaf [A] | 1 ystafell wely 2 person | 51 | Ia |
| Plot 15 | Fflat llawr isaf [A] | 1 ystafell wely 2 person | 54 | Ia |
| Plot 16 | Fflat llawr isaf [A] | 1 ystafell wely 2 person | 51 | Ia |
| Plot 17 | Fflat llawr isaf [A] | 1 ystafell wely 2 person | 54 | Ia |
| Plot 18 | Fflat llawr isaf [A] | 1 ystafell wely 2 person | 51 | Ia |
| Plot 19 | Fflat llawr isaf [A] | 1 ystafell wely 2 person | 54 | Ia |
| Plot 20 | Fflat llawr isaf [A] | 1 ystafell wely 2 person | 51 | Ia |
| Plot 21 | Fflat llawr isaf [A] | 1 ystafell wely 2 person | 54 | Ia |
| Plot 22 | Fflat llawr isaf [A] | 1 ystafell wely 2 person | 51 | Ia |
| Plot 23 | Fflat llawr isaf [A] | 1 ystafell wely 2 person | 54 | Ia |
| Plot 24 | Fflat llawr isaf [E] | 2 ystafell wely 3 person | 65 | Ia |
| Plot 25 | Fflat llawr Cyntaf [E] | 2 ystafell wely 3 person | 66 | Ia |
| Plot 26 | Tŷ Canol Teras [C] | 2 ystafell wely 4 Person | 83 | Ia |
| Plot 27 | Tŷ Canol Teras [C] | 2 ystafell wely 4 Person | 83 | Ia |
| Plot 28 | Fflat llawr isaf [E] | 2 ystafell wely 3 person | 65 | Ia |
| Plot 29 | Fflat llawr Cyntaf [E] | 2 ystafell wely 3 person | 66 | Ia |
| Plot 30 | Fflat llawr isaf [E] | 2 ystafell wely 3 person | 65 | Ia |
| Plot 31 | Fflat llawr Cyntaf [E] | 2 ystafell wely 3 person | 66 | Ia |
| Plot 32 | Fflat llawr isaf [E] | 2 ystafell wely 3 person | 65 | Ia |
| Plot 33 | Fflat llawr Cyntaf [E] | 2 ystafell wely 3 person | 66 | Ia |
| Plot 34 | Tŷ Pâr [D] | 2 ystafell wely 4 person | 83 | Ia |
| Plot 35 | Tŷ Pâr [D] | 2 ystafell wely 4 person | 83 | Ia |
| Plot 36 | Tŷ Pâr [J] | 3 ystafell wely 5 person | 92 | Ia |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Plot 37 | Tŷ Pâr [J] | 3 ystafell wely 5 person | 92 | Ia |
| Plot 38 | Tŷ Pâr [J] | 3 ystafell wely 5 person | 92 | Ia |
| Plot 39 | Tŷ Pâr [J] | 3 ystafell wely 5 person | 92 | Ia |
| Plot 40 | Tŷ Pâr [D] | 2 ystafell wely 4 person | 83 | Ia |
| Plot 41 | Tŷ Pâr [D] | 2 ystafell wely 4 person | 83 | Ia |
| Plot 42 | Tŷ Pâr [J] | 3 ystafell wely 5 person | 92 | Ia |
| Plot 43 | Tŷ Pâr [J] | 3 ystafell wely 5 person | 92 | Ia |
| Plot 44 | Tŷ Pâr [J] | 3 ystafell wely 5 person | 92 | Ia |
| Plot 45 | Tŷ Pâr [J] | 3 ystafell wely 5 person | 92 | Ia |
| Plot 46 | Tŷ Pâr [D] | 2 ystafell wely 4 person | 83 | Ia |
| Plot 47 | Tŷ Pâr [D] | 2 ystafell wely 4 person | 83 | Ia |
| Plot 48 | Fflat llawr isaf [A] | 1 ystafell wely 2 person | 51 | Ia |
| Plot 49 | Fflat llawr isaf [A] | 1 ystafell wely 2 person | 54 | Ia |
| Plot 50 | Fflat llawr isaf [A] | 1 ystafell wely 2 person | 51 | Ia |
| Plot 51 | Fflat llawr isaf [A] | 1 ystafell wely 2 person | 54 | Ia |
| Plot 52 | Tŷ Pâr [K] | 4 ystafell wely 6 person | 114 | Ia |
| Plot 53 | Tŷ Pâr [K] | 4 ystafell wely 6 person | 114 | Ia |
| Plot 54 | Tŷ Pâr [D] | 2 ystafell wely 4 person | 83 | Ia |
| Plot 55 | Tŷ Pâr [D] | 2 ystafell wely 4 person | 83 | Ia |
| Plot 56 | Tŷ Pâr [J] | 3 ystafell wely 5 person | 92 | Ia |
| Plot 57 | Tŷ Pâr [J] | 3 ystafell wely 5 person | 92 | Ia |
| Plot 58 | Tŷ Pâr [J] | 3 ystafell wely 5 person | 92 | Ia |
| Plot 59 | Tŷ Pâr [J] | 3 ystafell wely 5 person | 92 | Ia |
| Plot 60 | Tŷ ar wahân [L] | 5 ystafell wely 8 person | 131 | Ia |
| Plot 61 | Tŷ Pâr [D] | 2 ystafell wely 4 person | 83 | Ia |
| Plot 62 | Tŷ Pâr [D] | 2 ystafell wely 4 person | 83 | Ia |
| Plot 63 | Tŷ Pâr [J] | 3 ystafell wely 5 person | 92 | Ia |
| Plot 64 | Tŷ Pâr [J] | 3 ystafell wely 5 person | 92 | Ia |
| Plot 65 | Tŷ Pâr [K] | 4 ystafell wely 6 person | 114 | Ia |
| Plot 66 | Tŷ Pâr [K] | 4 ystafell wely 6 person | 114 | Ia |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Plot 67 | Tŷ Pâr [J] | 3 ystafell wely 5 person | 92 | Ia |
| Plot 68 | Tŷ Pâr [J] | 3 ystafell wely 5 person | 92 | Ia |
| Plot 69 | Tŷ Pen Teras [J] | 3 ystafell wely 5 person | 92 | Ia |
| Plot 70 | Tŷ Canol Teras [J] | 3 ystafell wely 5 person | 92 | Ia |
| Plot 71 | Tŷ Pen Teras [J] | 3 ystafell wely 5 person | 92 | Ia |
| Plot 72 | Fflat llawr isaf [A] | 1 ystafell wely 2 person | 51 | Ia |
| Plot 73 | Fflat llawr isaf [A] | 1 ystafell wely 2 person | 54 | Ia |
| Plot 74 | Fflat llawr isaf [A] | 1 ystafell wely 2 person | 51 | Ia |
| Plot 75 | Fflat llawr isaf [A] | 1 ystafell wely 2 person | 54 | Ia |
| Plot 76 | Fflat llawr isaf [A] | 1 ystafell wely 2 person | 51 | Ia |
| Plot 77 | Fflat llawr isaf [A] | 1 ystafell wely 2 person | 54 | Ia |
| Plot 78 | Fflat llawr isaf [A] | 1 ystafell wely 2 person | 51 | Ia |
| Plot 79 | Fflat Llawr Cyntaf [A] | 1 ystafell wely 2 person | 54 | Ia |
| Plot 80 | Byngalo Pâr [F] | 2 ystafell wely 4 person | 59 | Ia |
| Plot 81 | Byngalo Pâr [F] | 2 ystafell wely 4 person | 59 | Ia |
| Plot 82 | Fflat llawr isaf [E] | 2 ystafell wely 3 person | 65 | Ia |
| Plot 83 | Fflat llawr Cyntaf [E] | 2 ystafell wely 3 person | 66 | Ia |
| Plot 84 | Fflat llawr isaf [E] | 2 ystafell wely 3 person | 65 | Ia |
| Plot 85 | Fflat llawr Cyntaf [E] | 2 ystafell wely 3 person | 66 | Ia |
| Plot 86 | Tŷ Pâr [J] | 3 ystafell wely 5 person | 92 | Ia |
| Plot 87 | Tŷ Pâr [J] | 3 ystafell wely 5 person | 92 | Ia |
| Plot 88 | Fflat llawr isaf [B] | 1 ystafell wely 2 person | 51 | Ia |
| Plot 89 | Fflat Llawr Cyntaf [B] | 1 ystafell wely 2 person | 54 | Ia |
| Plot 90 | Fflat llawr isaf [B] | 1 ystafell wely 2 person | 51 | Ia |
| Plot 91 | Fflat Llawr Cyntaf [B] | 1 ystafell wely 2 person | 54 | Ia |
| Plot 92 | Fflat llawr isaf [B] | 1 ystafell wely 2 person | 51 | Ia |
| Plot 93 | Fflat Llawr Cyntaf [B] | 1 ystafell wely 2 person | 54 | Ia |
| Plot 94 | Fflat llawr isaf [B] | 1 ystafell wely 2 person | 51 | Ia |
| Plot 95 | Fflat Llawr Cyntaf [B] | 1 ystafell wely 2 person | 54 | Ia |

Ystyrir bod y gymysgedd arfaethedig uchod yn cydymffurfio gydag unrhyw barthau datblygu lleol A106 ac yn "darparu cymysgedd o unedau fforddiadwy o ansawdd da, o amrywiaeth o fathau o ddeiliadaeth, i ddiwallu anghenion tai ar gyfer pob rhan o'r boblogaeth"

Yn ychwanegol, bydd y datblygiad yn cyflawni'r weledigaeth ar gyfer y LDP i greu "man lle mae anghenion tai cymunedau lleol yn cael eu cyflawni'n well o ran cyflenwad, math, ansawdd, effeithlon, lleoliad a fforddiadwyedd".

Er bod 95 o unedau wedi'u cynnig, mae'n amlwg, gyda deg math gwahanol o ddyluniadau, fod hyn yn dystiolaeth o ymrwymiad Adra i gefnogi'r cymysgedd ehangaf posibl o fathau o ddyluniadau tai er mwyn diwallu'r angen tai sy'n ofynnol ar gyfer yr ardal hon.

## 3.0 CARTREFI FFORDDIADWY

Mae Adra wedi ymrwymo i ddarparu 95 o unedau fforddiadwy yn y cynllun yma, mae hynny yn 100% o'r datblygiad sy'n welliant mawr i'r polisi presennol. Bydd y daliadaethau yn rhai rhent cymdeithasol neu ganolradd yn ddibynnol ar anghenion y gymuned a'r lefel o grant tai cymdeithasol sydd ar gael.

Er mwyn darparu'r ganran yma o unedau fforddiadwy yn llwyddiannus a sicrhau bod eu lefelau rhent yn unol â'r paramedrau tai fforddiadwy, bydd y datblygiad yn dibynnu ar dderbyn grant tai cymdeithasol gan Gyngor Conwy a Llywodraeth Cymru.

Os bydd grant ychwanegol neu arian SHG ar gael gall Adra ystyried, yn ofalus iawn, gynyddu nifer o gartrefi cymdeithasol sydd ar gael ar y safle.

I fod yn gymwys ar gyfer unedau rhent cymdeithasol, bydd angen i ymgeiswyr gofrestru gyda Thîm Datrysiadau Tai Conwy, tra bydd angen i ymgeiswyr am Rent Canolradd gofrestru eu diddordeb gyda Tai Teg.

Bydd pob uned fforddiadwy yn cael ei hadeiladu i safonau Gofyniad Ansawdd Datblygu Llywodraeth Cymru a bydd yn cael ei gosod i bobl leol yn unol â'r polisïau a'r meini prawf perthnasol fel y'u gosodwyd gan Dîm Datrysiadau Tai Cyngor Conwy a'u cefnogi gan Tai Teg.

Gwelir yr angen am rent fforddiadwy gan fod y safle wedi'i leoli ar gyrion Conwy ac mae galw mawr amdano gan y rhai sy'n dymuno aros yn agos at gymunedau Caerhun, Deganwy, Llansanffraid ac ardaloedd lleol eraill yng Nghonwy.

Mae pris cyfartalog tŷ ym Mwrdeistref Sirol Conwy tua £248,000, yn seiliedig ar ddata o fis Tachwedd 2025.

Mae'r tabl canlynol yn dangos prisiau cyfartalog ar gyfer eiddo cymysg sydd ar werth gan Werthwyr Tai: Iwan M Williams, Idris Estaes, Dafydd Hardy, Beresford Adams, Fletcher & Poole, a Rightmove (Tachwedd 2025) o fewn radiws o 1 filltir:

- Tai Un Ystafell Wely - £176,250
- Fflat Un Ystafell Wely - £115,000
- Tai Dwy Ystafell Wely - £202,675
- Byngalo Dwy Ystafell Wely - £260,238
- Byngalo Dwy Ystafell Wely - £157,250
- Tai Tair Ystafell Wely - £315,700
- Tai Pedair Ystafell Wely - £569,995
- Tai Pump Ystafell Wely - £701,250

Oherwydd bod incwm yr ardal yn weddol isel, ystyrir bod y gost gyfartalog o brynu tŷ ar y farchnad tu hwnt i gyrraedd y rhan fwyaf o'r boblogaeth leol.


Gan fod màs y safle yn cael ei ystyried yn deg mewn perthynas â lleoliad Conwy, ystyriwyd mai ffocws y safle oedd darparu tai fforddiadwy mewn ymateb i angen tai pobl leol.

Mewn cyferbyniad â'r tai fforddiadwy yma, nid oes unrhyw ofynion i'r trigolion sy'n prynu'r unedau gwerthu ar y farchnad fod yn lleol i Conwy, ond gan fod Adra yn darparu'r tai fforddiadwy newydd o ansawdd uchel hyn, bydd gofyniad bob amser i unrhyw drigolion yn y dyfodol gael cysylltiad lleol.

## 4.0 ANGHENION TAI - EIDDO RHENT CYMDEITHASOL

Mae rhent cymdeithasol yn gartrefi rhent cost is a ddarperir gan landlord cymdeithasol cofrestredig. Caiff tai cymdeithasol eu gosod yn seiliedig ar angen, mae Conwy fel awdurdodau lleol eraill yn defnyddio system sy'n rhoi pwyntiau i adlewyrchu amgylchiadau ac anghenion ymgeisydd. Mae system newydd wedi cael ei rhoi ar waith yn ddiweddar gan Conwy sy'n llawer haws i bobl ei deall ac yn y pen draw yn sicrhau bod pobl leol sydd â'r angen mwyaf am dai yn cael y cartrefi sydd eu hangen arnynt.

Mae'r galw am unedau rhent cymdeithasol yn parhau i fod yn fwy na'r cyflenwad yn y Sir ac mae wedi gwneud hynny am y saith mlynedd diwethaf:




| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Supply | 341 | 402 | 336 | 327 | 384 | 293 | 271 |
| Demand | 1056 | 1070 | 1205 | 1726 | 1967 | 1970 | 1563 |

Source: CCBC Housing Strategy, SARTH (social housing register) April 2025

Er mwyn i ymgeisydd gael ei ystyried ar gyfer tai cymdeithasol rhaid iddynt fod wedi cofrestru gyda Chofrestr Tai Conwy. Gwneir hyn trwy wneud cais i Dîm Opsiynau Tai Conwy.

Drwy ddarparu eiddo ar hyd rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus cyfleus a rheolaidd, bydd yn caniatáu i bobl aros mewn cysylltiad â'r ardaloedd cyfagos a'r gymuned ehangach, gan leihau dibyniaeth ar geir.

**Ffigurau Angen Tai SARTH ar gyfer Conwy a Glan Conwy a dderbyniwyd gan Dîm Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Chwarter 1 af 2025**

| Math o Uned | Nifer o Ymgeiswyr - Glan Conwy | Nifer o Ymgeiswyr - Conwy |
|---|---|---|
| Fflat 1 ystafell wely | 47 | 264 |
| Fflat 2 ystafell wely | 33 | 110 |
| Byngalo 2 ystafell wely | 32 | 112 |
| Tŷ 2 ystafell wely | 29 | 107 |
| Tŷ 3 ystafell wely | 26 | 76 |
| Tŷ 3 ystafell wely (wedi ei addasu) | Wedi'i gynnwys yn Ffigurau Conwy | 5 |
| Tŷ 4 ystafell wely | 11 | 40 |
| Tŷ 5 ystafell wely | 3 | 8 |

## Rhent Cymdeithasol a Chanolraddol

Cynigir rhent cymdeithasol ar gyfer y rhan fwyaf o'r safle, gyda thua 30% ar gyfer Rhent Canolradd. Mae pobl leol ar incwm isel yn gymwys ar gyfer unedau rhent cymdeithasol a ariennir trwy Dîm Datrysiadau Tai Cyngor Conwy lle mae angen i ymgeiswyr fod wedi cofrestru fel rhai sydd angen llety, neu'n ddigartref neu'n ail setlo.

Gall pobl leol eraill ar incwm isel i ganolig gofrestru am gartref newydd drwy Tai Teg.

O'i gymharu â (Rhent y Farchnad Agored) rhent canolradd Adra a all ddarparu datrysiad tai rhent canolradd i bobl yn ogystal â'u cynorthwyo o bosibl i brynu cartref gwahanol yn y dyfodol ar ôl cael yr amser i arbed. Mae opsiwn rhent canolraddol i bobl nad ydynt yn gallu prynu cartref am amryw resymau, fel dim digon o flaendal neu hanes credyd gwael.

Mae'r safle wedi'i hanelu at bobl sydd angen Tai Cymdeithasol trwy dîm Opsiynau Tai Conwy a rhent Canolradd trwy Tai-Teg.

## Cymysgedd Tai

Dros y blynyddoedd diwethaf mae datblygiadau deiliadaeth gymysg wedi dod yn fwy poblogaidd. Canmolodd astudiaeth yn 2006 gan Sefydliad Joseph Rowntree gynlluniau tai cymysg ac maent wedi barnu bod tai cymysg yn gymunedau mwy llwyddiannus i fyw ynddynt. Darganfuwyd bod cymunedau tai cymysg yn lleoedd dymunol i fyw.

Daeth yr astudiaeth a gynhaliwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree i'r casgliad nad oedd math cymysg o dai ac incwm cymysg yn "broblemau" i'r trigolion, a'u bod yn gweld eu cymdogion fel "pobl gyffredin" a bod y berthynas rhwng y trigolion â gwahanol ddeiliadaethau yn "sifil" ac yn "gyfeillgar".

Mae'r datblygiad hwn yn gyfle perffaith i greu math llwyddiannus o ddyluniad cymysg, o gynllun datblygu fforddiadwy a allai newid ac esblygu i ddiogelu a chryfhau diwylliant a threftadaeth y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Ymgynghorwyd â Thîm Datrysiadau Tai Conwy i ganfod yr angen a byddant yn gosod yr unedau fforddiadwy rhent cymdeithasol, a fydd i gyd yn cael eu cynnig yn unol â pholisïau perthnasol y Cyngor.

## Cynllun Cymysg - Darparu Fflatiau o fewn y Safle

Mae amcangyfrif cartrefi Llywodraeth Cymru yn 2014 yn dangos y rhagwelir y bydd cyfansoddiadau cartrefi yn newid.

Bydd llai o alw am eiddo mawr, ond bydd cynnydd i'w weld mewn eiddo llai, wrth i aelwydydd a theuluoedd llai a chanolig ddod yn norm.

Mae'r galw am fflatiau un ystafell wely llai wedi'i nodi o fewn y ffigurau angen tai a ddarparwyd gan Dîm Datrysiadau Tai Cyngor Conwy uchod. Mae'r cynllun yn cynnwys 30 o fflatiau un ystafell wely er mwyn ceisio bodloni rhan o'r galw hwn.

## Pwyslais ar Unedau 2 a 3 ystafell wely

Mae Prosbectws Tai Lleol Conwy (Ebrill 2025) yn nodi'r galw am bob math a maint o unedau fforddiadwy. Bydd darparu canran uchel o fflatiau / tai dwy a thair ystafell wely yn cynyddu'r dewis i deuluoedd llai, cyplau ifanc a phobl ifanc sydd eisiau rhannu, neu aelwydydd hŷn sy'n dymuno symud i rhywle llai.

Byddai'r math yma o aelwyd yn ei chael hi'n anodd fforddio cartrefi pedwar neu bum ystafell wely, neu byddai cartrefi o'r maint yma yn rhy fawr i'w anghenion."

Bydd darparu cymysgedd mwy o eiddo 2 a 3 ystafell wely yn cynnig cyfle i rai teuluoedd sydd ar hyn o bryd mewn anheddau anaddas i gael cartref newydd gyda gardd breifat wedi'i leoli mewn lleoliad cynaliadwy a chyfeillgar.

Byddai hyn yn cynorthwyo teuluoedd amrywiol i sefydlu cartref yn yr ardal trwy wella'r amodau byw i'r holl aelodau.

Mae cyfanswm o 60 o unedau yn yr unedau dwy a thair gwely o fewn y cynllun ac maent yn cyfrif am dros 63% o'r cynllun.

Dyma gymysgedd nifer yr ystafelloedd gwely yn y cynllun:

- 1 ystafell wely x 30 uned
- 2 ystafell wely x 36 uned
- 3 ystafell wely x 24 uned
- 4 ystafell wely x 4 uned
- 5 ystafell wely x 1 uned

Yn dilyn newidiadau diweddar i'r system fudd-daliadau, mae sawl tenant wedi dioddef oherwydd y dreth ystafell wely oherwydd tan-feddiannaeth ac yn dymuno symud i gartref llai.

Byddai eiddo dwy ystafell wely yn cynorthwyo Adra i reoli ei stoc bresennol yn well a galluogi'r ymgeiswyr hynny sy'n dymuno symud i gartref llai i wneud hynny, gan ryddhau eiddo mwy i ymgeiswyr eraill.

Byddai hyn hefyd yn helpu teuluoedd ar y gofrestr dai sydd angen cartrefi 3 ystafell wely.

## Cartrefi ar gyfer pobl hŷn

Wrth ddylunio'r datblygiad, mae Adra wedi ystyried anghenion newidiol y boblogaeth ac wedi diogelu'r datblygiad ar gyfer y dyfodol lle bo modd.

Yn unol â Chyfrifiad 2021, roedd tua 18% o aelwydydd un person yng Nghonwy yn 66+ oed. Rhagwelir y bydd y ffigurau yma yn cynyddu dros y degawdau nesaf.

**ONS - Rhagamcanion nifer o bobl 66+ yng Nghonwy (sylfaen 2022).**

| Number of persons ages 66+ Population Forecasts | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Year | 2022 | 2027 | 2032 | 2037 | 2042 |
| Conwy | 29,970 | 32,561 | 36,025 | 38,884 | 40,211 |

Bydd yr holl gartrefi newydd a gynigir yn y datblygiad yn cynnig tai a fydd yn cydymffurfio â Gofynion Ansawdd Datblygu Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r Safonau Diogel Drwy Ddylunio.

Hefyd, wrth gyflawni gofynion Safonau Cartrefi Gydol Oes, bydd yr holl gartrefi newydd yn darparu dyluniad sy'n addas ar gyfer y dyfodol a fydd hefyd yn diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio.

Yn ychwanegol at y cartrefi yn darparu ar gyfer eu hanghenion gydol oes, bydd hyn yn annog preswylwyr i ddod yn rhan o'u cymuned, ac i gael sicrwydd na fydd rhaid iddynt symud, os byddai amgylchiadau yn newid unrhyw bryd.

Bydd mynediad o amgylch yr ystâd newydd yn cael ei ystyried yn llawn gan fod mynediad gwastad a mannau cymunedol glaswelltog yn nodwedd allweddol o'r dyluniad.

Bydd hyn yn caniatáu i breswylwyr uniaethu â'r byd tu allan o fewn ardal wedi'i gwarchod, diogel a distaw, lle gall ymgysylltu gyda holl breswylwyr eraill ddod yn rhan bwysig o fyw yn y gymuned leol.

## 5.0 ANGEN O RAN TAI - EIDDO RHENT CANOLRADD

Pwrpas Rhent Canolradd yw cynnig dewis amgen i bobl sydd o bosib yn cael trafferthion ar y farchnad agored, fodd bynnag, oherwydd amgylchiadau nid ydynt yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth ar gyfer tai cymdeithasol.
Bydd y cartrefi hyn yn cael eu targedu at bobl mewn cyflogaeth, nad ydynt yn dibynnu ar fudd-daliadau, ac yn ennill rhwng £16,00 a £ 45,000 y flwyddyn. Caiff lefelau'r rhent ar gyfer unedau rhent canolradd eu pennu gan renti'r farchnad leol - fel arfer, ar gyfradd 80% i'r rhent marchnad am anheddau tebyg yn yr ardal dan sylw.
Gellir gweld cofrestr ddiweddaraf o'r holl bobl sydd wedi ceisio am ac yn diwallu'r meini prawf cymhwyso ar gyfer unedau fforddiadwy drwy Tai Teg. Isod, gwelwch y rhai sydd wedi cofrestru eu hangen drwy Tai Teg.

**Angen o ran Tai Rhent Fforddiadwy fel y'i derbyniwyd gan Dai Teg ar gyfer 2il chwarter 2024**

| Cadarnhawyd gan Tai-Teg ar gyfer yr Angen cyfredol o ran Tai Conwy ar gyfer 2il Chwarter 2024 | | |
|---|---|---|
| Nifer o ystafelloedd gwely | Math o Unedau | Nifer o ymgeiswyr |
| 1 Ystafell Wely | BYNGALO | 0 |
| | FFLAT | 6 |
| | TŶ | 1 |
| | FFLATIAU DEULAWR | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyfanswm nifer o ystafelloedd gwely | **7** |
| 2 Ystafell wely | BYNGALO | 2 |
| | FFLAT | 13 |
| | TŶ | 63 |
| | FFLATIAU DEULAWR | 0 |
| | Cyfanswm nifer o ystafelloedd gwely | **78** |
| 3 Ystafell wely | BYNGALO | 0 |
| | FFLAT | 1 |
| | TŶ | 43 |
| | FFLATIAU DEULAWR | 0 |
| | Cyfanswm nifer o ystafelloedd gwely | **44** |
| 4 Ystafell wely | BYNGALO | 0 |
| | FFLAT | 1 |
| | TŶ | 6 |
| | FFLATIAU DEULAWR | 0 |
| | Cyfanswm nifer o ystafelloedd gwely | **7** |
| 5 Ystafell wely | BYNGALO **heb ei gofnodi** | **0** |
| | TŶ **heb ei gofnodi** | **0** |
| | Cyfanswm nifer yr ystafelloedd gwely **heb ei gofnodi** | **0** |
| **Cyfanswm Ardal LL32 Conwy** | | **136** |

Trwy hysbysebu, hyrwyddo a marchnata'r cynllun hwn yn fwy, disgwylir y bydd mwy o ymgeiswyr yn dod ymlaen. Mae profiad yn dangos y bydd i ffigurau yma yn cynyddu wrth i'r prosiect agosáu at y cam adeiladu.

## COSTAU RHEDEG

Bydd yr eiddo'n cael eu hadeiladu gyda manyleb inswleiddio lefel uchel iawn, gyda phob un yn cyflawni EPC A.
Bydd gwresogi ffynhonnell aer ac offer arall sy'n effeithlon o ran ynni yn cael eu gosod. Bydd hyn yn sicrhau bod costau rhedeg y cartref i breswylwyr yn isel iawn a bydd yn lleihau biliau teuluoedd lleol a fydd yn byw yma.

Bydd cefnogaeth ar gael i'r unedau fforddiadwy i sicrhau bod yr offer yn cael ei ddefnyddio'n gywir ac i annog tenantiaid i fod yn ynni effeithlon.

## ANSAWDD A HYBLYGRWYDD

Cyflawnir ansawdd a hyblygrwydd dylunio drwy fodloni Gofynion Ansawdd Datblygu Llywodraeth Cymru. Bydd yr eiddo'n cael eu hadeiladu yn unol â safonau Lifetime Homes a fydd yn rhoi hyblygrwydd i'r eiddo gan gynnwys ystafelloedd ymolchi ar y llawr gwaelod. Bydd hyn yn caniatáu i deuluoedd aros yn eu cartrefi hyd yn oed os bydd amgylchiadau'n newid; gan y bydd yr eiddo'n addas ar gyfer tenantiaid gydag ychydig o broblemau symudedd.

Trwy sicrhau bod yr holl stad yn cael ei datblygu yn unol â Gofynion Ansawdd Datblygu Llywodraeth Cymru, bydd ymwelwyr a thenantiaid yn gallu symud yn fwy rhydd o gwmpas y stad.

Gan y bydd yr holl eiddo yn cael eu hadeiladu i'r Gofyniad Ansawdd Datblygu, pe bai'r galw yn y dyfodol yn newid, gallai Adra edrych ar ddiwygio deiliadaethau fforddiadwy'r eiddo, a fydd yn sicrhau hirhoedledd y safle.

## 6.0 CASGLIAD

- Mae'r cymysgedd tai arfaethedig yn bodloni'r anghenion lleol, gan gynnwys canran uchel o anheddau bach a chanolig eu maint.
- Bydd y tai yn effeithlon o ran ynni, wedi'u hadeiladu i safon uchel ac yn darparu lle byw sy'n ddigonol ar gyfer byw modern cyfforddus.
- Mae'r math a'r cymysgedd arfaethedig o ddyluniad yn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd yn y cyflenwad tai yn yr ardal, gyda rhai unedau mwy i ddiwallu anghenion tai penodol.
- Gan fod y rhan fwyaf yn gartrefi 1, 2 a 3 ystafell wely, mae hyn yn mynd i'r afael â'r galw am aelwydydd llai, am gyfansoddiad aelwydydd sy'n newid ac unigolion yr effeithir arnynt gan y dreth ystafell wely.
- Mae'r lleoliad a'r math o uned yn cynnig datrysiad ar gyfer aelwydydd ifanc a hŷn a theuluoedd llai.
- Mae Gofyniad Ansawdd Adeiladu i Ddatblygiad yn cynnig hyblygrwydd dros oes yr adeilad.
- Mae gan ddatblygiad deiliadaeth gymysg y gallu i greu cymuned gynaliadwy.
- Mae'r mannau agored cyhoeddus sydd wedi'u cynnwys yn y datblygiad yn cynnig lle dymunol i fyw.
- Mae Buddion Cymunedol yn cynnwys nifer o opsiynau ar gyfer lleoedd chwarae cyhoeddus.

**Ffynonellau**

Defnyddiwyd ffynonellau ac adroddiadau canlynol fel cyfeiriadau ar gyfer y datganiad cymysgedd tai hwn.


- Cofrestr Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cofrestr Tai Teg
- Adroddiadau gwerthwyr tai lleol a Rightmove
- Ffigurau Rhagolygon Poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol gyda dyddiad sylfaen yn 2022
- Prosbectws Tai Lleol Conwy [Ebrill 2025]
- Sefydliad Joseph Rowntree: Astudiaeth Gymunedol Gymysg (Mawrth 2006)